Senedd Cymru
Ymchwil y Senedd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Adroddiad Monitro

20 Medi 21

Cynnwys

1. Cyflwyniad 2

2. Cytundebau rhwng y DU a'r UE 2

2.1. Y Cytundeb Ymadael 2

Hawliau dinasyddion 2

Deunydd darllen ychwanegol 3

Protocol Gogledd Iwerddon 3

Y datblygiadau diweddaraf: 3

Deunydd darllen ychwanegol 4

2.2. Cytundeb Masnach a Chydweithredu 5

Llywodraethiant 5

Gweithredu 6

3. Cyfansoddiad 7

3.1. Confensiwn Cyfansoddiadol 7

Pwy fydd ar y Comisiwn? 7

Beth fydd y Comisiwn yn ei wneud? 8

4. Deddf Marchnad Fewnol y DU 8

4.1. Her gyfreithiol 8

4.2. Swyddfa'r Farchnad Fewnol 9

5. Fframweithiau Cyffredin 10

6. Cysylltiadau Rhynglywodraethol 11

7. Cyfiawnder 11

7.1. Y Senedd 11

7.2. Llywodraeth Cymru 12

7.3. Llywodraeth a Senedd y DU 12

1. Cyflwyniad

Mae gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gylch gwaith helaeth sy'n ymwneud ag ystod eang o feysydd. Bwriad yr adroddiad monitro hwn yw rhoi diweddariad i Aelodau'r Pwyllgor ar ddatblygiadau polisi allweddol sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y materion hyn ac unrhyw gamau y mae'n dymuno eu cymryd mewn ymateb. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi i roi gwybod i randdeiliaid am rai o'r materion y mae'r Pwyllgor wrthi'n eu hystyried ar hyn o bryd.

2. Cytundebau rhwng y DU a'r UE

Mae cysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn cael eu rheoli'n bennaf gan ddau gytuniad allweddol:

Mae'r Cytundeb Ymadael yn pennu'r telerau ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE.

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn sefydlu eu perthynas newydd o 1 Ionawr 2021 ymlaen.

Mae'r ddau gytuniad yn cynnwys materion datganoledig y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am eu gweithredu, megis pysgodfeydd, iechyd, yr economi a'r amgylchedd.

Mae'r meysydd a gaiff eu cwmpasu gan y ddau gytuniad i'w cael ym mhob adran o Lywodraeth Cymru. Mae Ymchwil y Senedd wedi creu ffeithlun yn dangos pob Gweinidog a lle mae eu cyfrifoldebau yn cydgyffwrdd â chytundebau.

Mae'r adran hon yn rhoi diweddariad ar sut mae'r cytundebau'n gweithio'n ymarferol.

2.1. Y Cytundeb Ymadael

Mae'r trafodaethau ynghylch gweithredu'r Cytundeb Ymadael ac, yn benodol, y Protocol ar Iwerddon-Gogledd Iwerddon ("Protocol Gogledd Iwerddon") wedi dal i fynd rhagddynt.

Hawliau dinasyddion

30 Mehefin 2021 oedd y dyddiad cau i ddinasyddion Ewropeaidd a oedd yn byw yn y DU cyn 1 Ionawr 2021 wneud cais i aros yn y DU. Trafodwyd y mater ar 9 Mehefin yn wythfed cyfarfod Cyd-bwyllgor y DU-UE, sy'n goruchwylio'r Cytundeb Ymadael. Soniodd y DU am 'lwyddiant parhaus' ei gynllun, ond pwysleisiodd yr UE fod yn rhaid i'w ddinasyddion fod â sicrwydd cyfreithiol. Yn ôl yr UE, cytunodd y ddwy ochr i ddatrys materion eraill yn 'gyflym'.

Deunydd darllen ychwanegol

- Mae erthygl ddiweddaraf Ymchwil y Senedd yn cyflwyno'r ystadegau diweddaraf sydd ar gael.
- Mae erthygl Ymchwil y Senedd yn olrhain effaith y pandemig ar y Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.
- What Now? The EU Settlement Scheme after the Deadline, Madeleine Sumption, Arsyllfa Mewnfudo Prifysgol Rhydychen

Protocol Gogledd Iwerddon

Trafododd y DU a'r UE Brotocol Gogledd Iwerddon yn wythfed cyfarfod Cyd-bwyllgor y DU-UE. Cyhoeddodd yr UE a'r DU ddatganiadau yn dilyn y cyfarfod.

Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU bapur gorchymyn ar Brotocol Gogledd Iwerddon. Mae'r papur yn amlinellu cynigion gan Lywodraeth y DU i newid gweithrediad y Protocol mewn ffyrdd a fyddai'n gofyn am ail-negodi sawl rhan allweddol o'r Protocol â'r UE. Mae'r papur gorchymyn yn awgrymu, os na fydd trafodaethau gyda'r UE ar ei newidiadau arfaethedig yn llwyddiannus, y gallai'r DU gychwyn erthygl 16 o'r Protocol. Mae erthygl 16 yn caniatáu i'r naill ochr neu'r llall sefydlu mesurau diogelu unochrog a/neu fesurau ail-gydbwyso os yw'r Protocol yn achosi 'anawsterau economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol difrifol y mae perygl iddynt barhau, neu i ddargyfeirio masnach'.

Mae'r UE wedi ymateb i'r papur gorchymyn gan nodi y dylai'r trafodaethau technegol ar sut y gweithredir y Protocol yn ymarferol barhau ond na fydd yn fodlon ail-negodi'r telerau. Mae'r trafodaethau'n parhau.

Y datblygiadau diweddaraf:

- Ar 4 Medi, dywedodd yr Arglwydd David Frost ei fod yn pryderu y gallai 'drwgdybiaeth' ddatblygu rhwng y DU a'r UE ynghylch y trefniadau;

- Ar 6 Medi, gohiriodd Llywodraeth y DU drefniadau gwirio bwyd-amaeth a bwyd anifeiliaid, a disgwylir i hyn fod ar waith ar 1 Hydref am gyfnod amhenodol.
- Ar 8 Medi, adroddodd RTE y bydd yr UE yn cyflwyno ystod o gynigion erbyn dechrau mis Hydref. Adroddodd y BBC ar 14 Medi y deellir bod hyn yn cynnwys trefniadau bwyd-amaeth unigryw ar gyfer Gogledd Iwerddon a chynigion ynghylch ardollau.
- Ar 8 Medi, dywedodd Prif Weinidog y DU wrth Senedd y DU: "clearly, the protocol, as it is being applied by our friends in the EU, is not, in my view, protecting the Belfast/Good Friday agreement as it should in all its aspects. We must sort it out."
- Ar 13 Medi, dywedodd yr Arglwydd Frost wrth Dŷ'r Arglwyddi y byddai'n "gamgymeriad mawr" i'r UE gredu na fyddai'r DU yn cychwyn Erthygl 16 a bod y Papur Gorchymyn 'yn nodi sut y cyflawnir y profion ar gyfer Erthygl 16, yn ein barn ni'.

Bydd sut y mae anghytundebau mewn perthynas â'r Protocol yn cael eu datrys yn cael effaith sylweddol ar faterion eraill sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn, gan gynnwys y rhaglen fframweithiau cyffredin, gweithrediad Deddf Marchnad Fewnol y DU, gweithredu deddfwriaeth ôl-Brexit a materion allanol eraill. o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Pe bai'r naill ochr neu'r llall yn cychwyn Erthygl 16, gallai hefyd gael sgil-effeithiau sylweddol i borthladdoedd Cymru a'r economi ehangach, gan ddibynnu ar ba fesurau diogelu neu ail-gydbwyso a gafwyd.

Deunydd darllen ychwanegol

Mae'r rhestr o erthyglau isod yn cynnig dadansoddiad pellach o rai o'r materion a godwyd gan y papur gorchymyn.

- Protocol on Northern Ireland/Ireland and the new command paper, Dr Katy Haywood, UK in a Changing Europe
- Northern Ireland Protocol: ongoing UK-EU disagreements, Jess Sargeant, Sefydliad y Llywodraeth
- Honesty is such a lonely word… , Arsyllfa Polisi Masnach y DU, yr Athro Michael Gasiorek a'r Athro Alan Winters

2.2. Cytundeb Masnach a Chydweithredu

Ar 1 Ionawr 2021, daeth Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE i rym. Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn sefydlu'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE ac mae'n cwmpasu nifer o feysydd, gan gynnwys rhai o fewn cymhwysedd datganoledig. Mae'r ffeithlun isod yn dangos meysydd cydweithrediad y DU a'r UE.



Llywodraethiant

Ar 9 Mehefin, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Cyngor Partneriaeth, sy'n goruchwylio'r cytundeb. Cyd-gadeiriwyd y cyfarfod gan yr Arglwydd Frost, y Gweinidog Gwladol yn Swyddfa'r Cabinet ac Is-lywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Maroš Šefčovič.

Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod Gweinidog yr Economi, Vaughan Gething, wedi mynychu'r cyfarfod i arsylwi. Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd y Gweinidog at yr Arglwydd Frost gan ddisgrifio'r trefniant hwn i fod yn 'anfoddhaol iawn'. Esboniodd:

> The Welsh Government must be able to contribute on issues that fall within our devolved competence as active participants at meetings of the UK-EU Partnership Council. Our responsibilities for implementation and the real impact that the TCA is already having on businesses and citizens in Wales make it vital that we fully involved in agreeing UK positions and have the opportunity to represent our direct interests in the meetings.

Ychwanegodd na all y sefyllfa hon barhau wrth symud ymlaen.

Yn ogystal â'r Cyngor Partneriaeth, mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn sefydlu dros 20 o bwyllgorau a gweithgorau newydd. Ar 1 Gorffennaf, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y bydd dirprwyaethau'r DU yn y dyfodol yn amrywio o ran nifer, yn dibynnu ar yr agenda. Nid yw'n glir a fydd Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli yn y dyfodol na sut y caiff ei chynrychioli.

Hyd yma, mae cyfarfodydd wedi eu cynnal ar nawdd cymdeithasol, ynni a physgodfeydd. Roedd dirprwyaeth y DU yn cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfarfod ar gydlynu nawdd cymdeithasol. Nid oes gwybodaeth am fynychwyr y cyfarfodydd eraill ar gael i'r cyhoedd eto.

Gweithredu

Mae'r gwaith o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu wedi dechrau Mae enghraifft wedi'i nodi isod:

Gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu: pysgodfeydd a dyfroedd Cymru

Mae trefniadau pysgodfeydd newydd Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU-UE yn ei gwneud yn ofynnol i'r naill barti hysbysu'r parti arall am fesurau newydd sy'n debygol o effeithio ar longau pysgota ei gilydd cyn i'r mesurau hynny gael eu gweithredu, gan ganiatáu digon o amser i'r parti arall ddarparu sylwadau neu ofyn am eglurhad.

Yn ddiweddar, rhoddodd Llywodraeth Cymru ei chydsyniad ar gyfer Rheoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio) 2021 Llywodraeth y DU, i wneud newidiadau i amodau trwyddedau domestig a thramor yn ardal y Môr Celtaidd yn nyfroedd Cymru a Lloegr.

3. Cyfansoddiad

3.1. Confensiwn Cyfansoddiadol

Roedd Maniffesto'r Blaid Lafur ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd 2021 yn addo 'arwain Cymru mewn sgwrs ddinesig genedlaethol am ei dyfodol cyfansoddiadol' yn y Chweched Senedd.

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 15 Mehefin 2021, yn ymrwymo i sefydlu comisiwn sefydlog annibynnol i ystyried dyfodol cyfansoddiadol Cymru.

Mae Confensiwn Cyfansoddiadol yn gorff cynrychioliadol a sefydlir i lunio neu gynnig newidiadau i gyfansoddiad gwlad.

Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn gyfrifol am y confensiwn cyfansoddiadol, ac mae wedi amlinellu manylion cychwynnol am y comisiwn arfaethedig mewn areithiau yn y Cyfarfod Llawn ac i Ganolfan Llywodraethiant Cymru ym mis Gorffennaf. Mae'r wybodaeth o dan y penawdau isod yn cyfeirio'n uniongyrchol at yr areithiau hyn:

Pwy fydd ar y Comisiwn?

Bydd yn gomisiwn annibynnol yn cynnwys dinasyddion, gan gynrychioli amrywiaeth cymdeithasau a chymunedau Cymru.

Bydd ei aelodaeth yn cynrychioli pob oedran ac yn cynnwys cynrychiolaeth o 'amryfal gefndiroedd gwleidyddol a dinesig'. Bydd yr aelodau'n dod o'r 'ystod ehangaf bosibl o sectorau yn y gymdeithas ddinesig', gan gynnwys sefydliadau cyhoeddus, preifat, trydydd sector, partneriaid cymdeithasol, sefydliadau dinesig a sefydliadau llawr gwlad.

Bydd y Comisiwn yn cael ei gefnogi gan banel ar wahân o arbenigwyr o Gymru a thu hwnt. Byddant yn cynnig arbenigedd, data pendant a gwybodaeth, a byddant yn cynnal gwaith ymchwil a dadansoddiadau y gall y comisiwn eu defnyddio i ddatblygu syniadau ac argymhellion.

Beth fydd y Comisiwn yn ei wneud?

Bydd y cylch gwaith yn cael ei ddylunio gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Comisiwn yn ymgysylltu â'r cyhoedd 'mor eang â phosib' ac yn 'ystyried trefniadau llywodraethu Cymru, datganoli a'n perthynas â'r DU yn y dyfodol a'r egwyddorion a ddylai fod wrth graidd y berthynas honno'.

Bydd disgwyl i'r comisiwn lunio adroddiad gyda'i argymhellion a'i gasgliadau o fewn 18-24 mis.

Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi lansiad ffurfiol y comisiwn yn gynnar yn yr hydref, ac mae wedi trefnu datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Medi o'r enw 'Y Comisiwn Cyfansoddiadol'.

4. Deddf Marchnad Fewnol y DU

4.1. Her gyfreithiol

Ar 19 Ionawr 2021, fe wnaeth y Cwnsler Cyffredinol blaenorol, Jeremy Miles AS, gyhoeddi achos cyfreithiol ffurfiol yn y Llys Gweinyddol yn herio Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020.

Roedd y cais am adolygiad barnwrol yn dadlau bod y Ddeddf:

- yn ymddangos i fod yn diddymu rhan o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn ffordd sy'n lleihau cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd; ac
- yn rhoi pwerau eang i Lywodraeth y DU y gallai Gweinidogion y DU eu defnyddio i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru mewn ffordd sy'n gwanhau'r setliad datganoli.

Roedd y cais yn ceisio dyfarniad datganiadol nad yw darpariaethau'r Ddeddf yn cael yr effaith ganlyniadol o gyfyngu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac na ellir arfer pwerau a roddir i Weinidogion y DU o dan y Ddeddf mewn ffordd a fyddai'n cyfyngu'n sylweddol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. .

Gwrthodwyd cais Llywodraeth Cymru am ganiatâd gan y Llys Rhanbarthol, ar y sail ei fod yn gynamserol ac mai'r ffordd orau o ystyried y materion a godwyd fyddai yng nghyd-destun cynigion deddfwriaethol penodol.

Apeliodd Llywodraeth Cymru yn erbyn y dyfarniad. Roedd hyn yn llwyddiannus a rhoddwyd caniatâd i apelio yn erbyn penderfyniad y Llys Rhanbarthol ar 23 Mehefin 2021. Mae'r Llys Apêl yn nodi bod rhesymau teilwng dros glywed yr apêl hon a bod yr achos yn codi materion pwysig o egwyddor o ran y berthynas gyfansoddiadol rhwng Senedd Cymru a Senedd y DU.

Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol fod disgwyl i'r achos gael ei glywed yn y Llys Apêl ym mis Ionawr 2022.

4.2. Swyddfa'r Farchnad Fewnol

Mae Rhan 4 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU yn sefydlu Swyddfa'r Farchnad Fewnol ('y Swyddfa'). Mae'r Swyddfa wedi'i lleoli yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. O dan y Ddeddf, mae'r Swyddfa'n gyfrifol am oruchwylio gweithrediad marchnad fewnol y DU, ond dim swyddogaethau cyflafareddu na gorfodi. Mae'n ofynnol i Swyddfa'r Farchnad Fewnol adrodd ar weithrediad effeithiol y farchnad, gall gynnal adolygiadau o effaith deddfwriaeth neu ddeddfwriaeth arfaethedig a basiwyd ar gais Llywodraeth y DU neu lywodraethau datganoledig, gall gasglu tystiolaeth gan randdeiliaid a gall adrodd ar faterion y maent yn eu codi. Mae mwy o fanylion am weithrediad y Swyddfa a'r Ddeddf i'w gweld yn y Nghrynodeb Ymchwil y Senedd o'r Ddeddf.

Dros yr haf, cynhaliodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ddau ymgynghoriad yn ymwneud â sut y bydd y Swyddfa'n gweithredu'n ymarferol.

Ym mis Mai, cyhoeddodd ganllawiau drafft yn nodi sut y mae Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn bwriadu cyflawni ei swyddogaethau. Roedd y canllawiau yn manylu sut y bydd llywodraethau yn gallu gofyn am gyngor gan y Swyddfa, a sut y mae'r Swyddfa'n bwriadu delio â'r ceisiadau hynny. Manylir hefyd ar y systemau y bydd y Swyddfa yn eu defnyddio i gasglu gwybodaeth gan fusnesau a phartïon eraill â diddordeb ynghylch gweithrediad y farchnad a sut y bydd yn trin y ceisiadau hynny. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 22 Gorffennaf.

Ym mis Mehefin, ymgynghorodd ar ddatganiad polisi drafft ar sut y bydd yn defnyddio ei swyddogaethau gorfodi. O dan y Ddeddf, darperir pwerau casglu gwybodaeth i'r Swyddfa sy'n ei galluogi i ofyn am wybodaeth gan sefydliadau, awdurdodau cyhoeddus ac unigolion i'w helpu i gyflawni ei swyddogaethau

adolygu ac adrodd. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i'r Swyddfa osod cosb pan na chydymffurfir â cheisiadau am wybodaeth. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 22 Gorffennaf.

5. Fframweithiau Cyffredin

Yn 2017, penderfynodd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eu bod yn awyddus i reoli unrhyw ddargyfeiriad yn y dyfodol mewn rhai meysydd polisi a gâi eu llywodraethu'n flaenorol gan reolau marchnad sengl yr UE. I wneud hyn, cytunwyd i sefydlu 'fframweithiau cyffredin' mewn rhai meysydd polisi.

Mae fframweithiau cyffredin fel arfer yn gosod prosesau i'r llywodraethau benderfynu pryd i ddilyn yr un dulliau o ymdrin â chyfraith a pholisi, a phryd i fynd ar eu trywydd eu hun. Gall deddfwriaeth fod yn sail iddynt. Bydd y Senedd a deddfwrfeydd eraill y DU yn gallu craffu ar fframweithiau arfaethedig cyn iddynt gael eu cwblhau.

Mae gan Lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gynlluniau ar gyfer 26 fframwaith cyffredin i Gymru. Ym mis Chwefror, cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd fod pob un ond tri wedi'u cadarnhau dros dro a'u bod bellach mewn grym. Fodd bynnag, dim ond saith fframwaith arfaethedig sydd wedi'u cyhoeddi.

Rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol dystiolaeth i'r Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 6 Medi a rhoddodd ddiweddariad i'r Pwyllgor DCC ar hynt fframweithiau drwy'r rhaglen mewn llythyr ar 7 Medi.

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud ei fod yn amcanu i gwblhau fframweithiau cyffredin erbyn diwedd 2021. Fodd bynnag, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol yn ei lythyr at y Pwyllgor:

> [W]e should not seek to meet deadlines to the detriment of quality.

Mae Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn parhau i drafod 'materion trawsbynciol' wrth ddatblygu fframweithiau cyffredin, gan gynnwys sut y dylai fframweithiau ryngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, rhwymedigaethau rhyngwladol, a'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

> Failure to make sufficient progress on all cross-cutting issues would prevent the scrutiny and finalisation of the frameworks.

6. Cysylltiadau Rhynglywodraethol

Yn 2018, fe wnaeth y Cydbwyllgor Gweinidogol (Cyfarfod Llawn) gomisiynu adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol i 'sicrhau eu bod yn addas at y diben yng nghyd-destun ymadawiad y DU â'r UE'. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd y llywodraethau ddiweddariad ar y cynnydd sydd wedi ei wneud â'r adolygiad. Roedd y diweddariad yn nodi cynigion ar gyfer newidiadau, gan gynnwys:

- sefydlu strwythurau rhynglywodraethol newydd i gymryd lle'r Cydbwyllgor Gweinidogol;
- cydnabod y gall cyrff rhynglywodraethol wneud penderfyniadau;
- adolygu'r broses ar gyfer datrys anghydfodau, i'w gwneud yn ofynnol i'r llywodraethau gymryd cyngor gan drydydd parti ynghylch anghydfod a sicrhau bod person a gymeradwyir gan bob parti yn cadeirio cyfarfodydd;
- caniatáu cylchdroi lleoliadau a chadeiryddion cyfarfodydd rhynglywodraethol; a
- gwella tryloywder ac atebolrwydd i ddeddfwrfeydd.

Roedd y diweddariad hefyd yn tynnu sylw at rai meysydd lle na chafwyd cytundeb. Ar 7 Medi, ysgrifennodd Prif Weinidog y DU at Brif Weinidog Cymru a phrif weinidogion yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn y llythyr, dywedodd:

> [W]e are now in a position to conclude [the review]. The Chancellor of the Duchy of Lancaster will shortly write to you in this regard.

Disgwylir i Brif Weinidog Cymru wneud datganiad ar gysylltiadau rhynglywodraethol yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Medi.

7. Cyfiawnder

7.1. Y Senedd

Trafododd Pwyllgor Busnes y Senedd gylch gwaith y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad newydd ar 13 Gorffennaf a chytunwyd:https://busnes.senedd.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=699&MId=12330&Ver=4

> Dylid neilltuo materion polisi cyfiawnder lefel uchel, megis datganoli cyfiawnder a phlismona, a materion sy'n ymwneud â deddfu, i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Dylai materion eraill sy'n ymwneud â chymhwyso polisi cyfiawnder yn ymarferol fod yn agored i waith craffu gan bwyllgorau polisi a deddfwriaeth priodol.

7.2. Llywodraeth Cymru

Rhannodd Llywodraeth flaenorol Cymru ei rhaglen waith ar drawsnewid cyfiawnder gyda'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad blaenorol ym mis Hydref 2020. Roedd y rhaglen waith yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar draws pum maes. Cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed ym mis Mawrth 2021.

Yn Llywodraeth newydd Cymru, mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gyfiawnder a'r ymateb i Gomisiwn Thomas, meysydd a oedd yn flaenoriaeth gan y Prif Weinidog yn flaenorol. Y Cwnsler Cyffredinol fydd yn cadeirio Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder, ac ef hefyd fydd yn gyfrifol am gysylltu â'r sector cyfreithiol a pholisi'r tribiwnlysoedd.

Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn gyfrifol am gysylltiadau â'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, yr heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill; cysylltiadau â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf; a gwasanaethau cynghori ac eiriolaeth.

Traddododd y Cwnsler Cyffredinol ddarlith gyhoeddus o'r enw 'Getting Justice for Wales' i Brifysgol Aberystwyth ar 8 Gorffennaf. Cadarnhaodd y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad a rhaglen strategol ar gyfiawnder yn yr hydref.

7.3. Llywodraeth a Senedd y DU

Ar hyn o bryd mae Senedd y DU yn ystyried deddfwriaeth ynghylch gweithrediad y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr.

- Mae Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd yn gwneud ystod eang o newidiadau i'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys i bwerau'r heddlu, i'r gyfraith ddedfrydu a'r trefniadau rheoli troseddwyr. Mae rhannau o'r Bil yn gofyn am gydsyniad Senedd Cymru o dan y confensiwn cydsyniad deddfwriaethol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn argymell bod y Senedd yn cydsynio i'r Bil.
- Mae'r Bil Adolygiad Barnwrol a'r Llysoedd yn caniatáu i'r llysoedd atal gorchmynion diddymu ar gyfer penderfyniadau anghyfreithlon gan gyrff cyhoeddus. Byddai hyn yn berthnasol i heriau adolygiad barnwrol

a wneir mewn perthynas â phenderfyniadau gan gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Byddai'r Bil hefyd yn cyfyngu ar apelau adolygiad barnwrol ar gyfer rhai penderfyniadau gan yr Uwch Dribiwnlys (a elwir yn *Cart*) ac yn gwneud darpariaeth ynghylch gweithdrefnau mewn llysoedd a thribiwnlysoedd neilltuedig. Nid yw'r Bil yn gofyn am gydsyniad y Senedd.

- Byddai Mesur Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddfeydd Barnwrol yn cynyddu'r oedran ymddeol gorfodol i'r farnwriaeth ac yn cynnig mwy o opsiynau i farnwyr wedi ymddeol eistedd, gan gynnwys yn Nhribiwnlysoedd datganoledig Cymru. Byddai hefyd yn gwneud newidiadau i bensiynau a lwfansau barnwrol. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell i'r Senedd gydsynio i'r Bil.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymgynghori tan 31 Hydref ar fecanweithiau datrys anghydfodau.